# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 17 MEHEFIN 2019

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Miss Margaret E.Jones (Is-gadeirydd yn cadeirio) a Mr David Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymuned:**- Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Gan fod 4 aelod etholedig a 3 aelod annibynnol yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Beth Lawton i arsylwi'n unig, er mwyn sicrhau cworwm.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Dr Einir Young (Cadeirydd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2018-19

Cyflwynwyd – drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2018-19. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Gofynnwyd i'r aelodau wirio eu bywgraffiadau a chysylltu â'r Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol gydag unrhyw gywiriadau / diweddariadau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 18 Gorffennaf, yn ddarostyngedig i newid y cyfeiriad at 2016-2017 yn y fersiwn Saesneg o'r prif bennawd ar dudalen 15 i ddarllen '*2018-2019*'.**

**(b) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i gwblhau'r rhageiriau, mewn ymgynghoriad â'r cadeirydd.**

## 6. CAIS AM ODDEFEB

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais gan y Cynghorydd W.Gareth Roberts, Aelod Ward Aberdaron ar Gyngor Gwynedd am oddefeb yn ymwneud â chynllun creu trydan arfaethedig ger Ynys Enlli, oedd yn ei ward, a lle'r oedd hefyd yn ffermio fel tenant.

Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol:-

- Petai'r cynllun yn cael ei wireddu, y byddai'r cynghorydd yn elwa yn yr ystyr y byddai yna gyflenwad trydan ar gael iddo ar Ynys Enlli. Roedd hynny'n creu buddiant oherwydd y byddai penderfyniad y naill ffordd neu'r llall ar y cynllun yn effeithio ar ei les yn bersonol. Roedd y buddiant hefyd yn un oedd yn rhagfarnu.
- Bod y cynghorydd yn dymuno cymryd rhan yn y trafodaethau lleol oherwydd ei wybodaeth fel aelod lleol, ond hefyd fel rhywun oedd â gwybodaeth a phrofiad unigryw o Ynys Enlli. Roedd hefyd yn dymuno cael yr hawl i siarad fel aelod lleol, ond nid i bleidleisio, pan ddeuai'r cynllun gerbron y Cyngor hwn.

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn y mater gan ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth Enlli ac wedi bod yn Is-gadeirydd Cyngor Enlli. Roedd o'r farn bod hwn yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Gofynnwyd i'r pwyllgor gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal y cynghorydd rhag cymryd rhan yn y trafodaethau oherwydd y buddiant, yn erbyn budd y cyhoedd mewn caniatáu iddo gymryd rhan oherwydd ei wybodaeth a'i brofiad unigryw o Ynys Enlli. Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried ymarferoldeb gofyn i aelod arall gamu i mewn i rôl yr aelod lleol yn y cyd-destun hwn.

Yn ystod y drafodaeth ar y cais, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Na fyddai'r cynghorydd yn elwa'n ariannol o'r cynllun.
- Gan fod y cynghorydd eisoes yn defnyddio trydan ar yr ynys, na fyddai'r cynllun yn golygu dim mwy iddo na newid y cyflenwad craidd.
- Bod geiriad ffurflen gais y cynghorydd am oddefiad yn awgrymu bod ganddo farn bendant o blaid dyfodiad cyflenwad trydan i'r ynys. Serch hynny, roedd yn bosib' bod rhesymau gan eraill dros wrthwynebu'r datblygiad a byddai angen i'r farn honno gael ei chlywed mewn unrhyw drafodaeth hefyd.
- Bod mantais y cynllun i'r cynghorydd fel tenant yn amlwg, gan y byddai cael cyflenwad trydan ar yr ynys yn hwyluso pethau iddo.
- Bod modd i'r cynghorydd siarad ar y mater fel tirfeddiannwr preifat ac y gallai ofyn i aelod cyfagos ei gynrychioli yn ei rôl fel aelod lleol.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais y Cynghorydd W.Gareth Roberts am oddefiad i gymryd rhan fel aelod o Gyngor Gwynedd yn y trafodaethau lleol ac i siarad pan ddaw'r cynllun creu trydan arfaethedig ger Ynys Enlli gerbron y Cyngor hwn ar y sail:-**

**(a) Bod y pwyllgor o'r farn bod y cyswllt rhwng y Cynghorydd a'r cynllun a'i denantiaeth ar Ynys Enlli yn golygu y byddai'n anodd, o ystyried hefyd gynnwys ei ffurflen gais am oddefeb, iddo gynrychioli'r budd cyhoeddus cyffredinol gan iddo ddod i gasgliad eisoes ar y mater yma, a bod ei gyswllt yn rhy agos ac yn rhy sylweddol ar y mater.**

**(b) Y byddai ganddo lais ar y mater beth bynnag yn ei rôl fel tirfeddiannwr preifat.**

**(c) O safbwynt siarad ar y mater yn gyffredinol, ni ystyrir bod hwn yn fater sy'n golygu na all aelod arall gamu i mewn i rôl aelod lleol yn y cyd-destun hwn.**

## 7. HUNAN ARFARNIAD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2018-19; ac
- ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2019-20.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2018-19:-**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | **1** | **Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.**<br><br>**Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau anwytho i aelodau ynghyd a chyrsiau manwl ar sail templed CLlLC.**<br><br>**Adolygu Protocolau Rhoddion a Lletygarwch a Chyswllt Aelodau Swyddogion. Cynnig diwygiadau i'r Protocol Cyswllt Aelodau Swyddogion a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018.**<br><br>**Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn**<br><br>**Cymeradwyo canllawiau ar ddatgan buddiant a chyswllt aelodau wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn eu bywyd preifat. Maent wedi eu cylchredeg i aelodau.** | **Parhau i fynychu a chefnogi** |
| **Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad** | **1** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau.**<br><br>**Pwyllgor Safonau wedi** | **Cynnal sgwrs ar gyfer aelodau'r Cyngor** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **mabwysiadu canllawiau datgan a sut i ymdrin ag amgylchiadau preifat.** | |
| **Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | **Amherthnasol** | **Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.** | |
| **Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad** | **1** | **Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru** | **Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth**<br><br>**Derbyn adroddiadau rheolaidd o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.** |
| **Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad** | **3** | **Cefnogi rhaglen anwytho ar gyfer y Cyngor newydd.** | **Hyfforddiant newydd ar gyfer aelodau'r Cyngor ar fin cychwyn.** |
| **Rhoi goddefebau i aelodau** | **1** | **Adolygwyd y drefn goddefebau gan fabwysiadu trefn cyflwyniad gan yr ymgeisydd a gwella ansawdd y wybodaeth a gyflwynir.** | |
| **Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | **Amherthnasol** | **Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn** | |
| **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a** | **Amherthnasol** | **Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | | | |
| **Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | **3** | **Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.**<br><br>**Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad. Wedi cynnwys sesiwn i beilota cynnwys y cwrs.** | **Trefnu rhaglen hyfforddiant newydd.**<br><br>**Angen symud ymlaen i weithredu'r peilot.** |

**(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn ar gyfer 2019/20:-**

**<u>17 Mehefin, 2019</u>**

**Adroddiad Blynyddol**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Llyfr Achosion yr Ombwdsmon**

**<u>4 Tachwedd, 2019</u>**

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
**Cofrestr Datgan Buddiant**
**Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**

**<u>27 Ionawr, 2020</u>**

**Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Adroddiad ar Safonau Moeseg mewn trefniadau allanoli a chydweithio.**

## 8. ADRODDIAD PWYLLGOR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i drafod materion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar ganfyddiadau ei adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer safonau mewn Llywodraeth Leol yn Lloegr.

Nodwyd, er bod yr adolygiad yn ymwneud â gweithredu'r gyfundrefn safonau yn Lloegr yn unig, y byddai'r adroddiad a'i argymhellion o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Tynnwyd sylw at rai o brif negeseuon yr adroddiad mewn nifer o wahanol feysydd, gan gynnwys datgan buddiannau, honiadau o gamymddwyn, bwlio, rôl swyddogion, trefniadau corfforaethol, arweinyddiaeth a diwylliant ynghyd â threfniadau allanoli a chydweithio. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor ddod yn ôl at rai o'r materion hyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. COFLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i drafod materion a nodwyd yng Nghoflyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon – Rhif 20.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod yr achos cyntaf yn y Crynodebau Achosion yn tanlinellu pwysigrwydd cadw'r dystiolaeth.
- Bod derbyn trosolwg o'r hyn sy'n digwydd mewn llefydd eraill yn ffordd dda o adnabod problemau cyffredin ar draws Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.20 y.h.

**CADEIRYDD**